

CAERDYDD Sy'n Dda i Blant



01 CYFLWYNIAD I'R
PECYN CYMORTH

WWW.CAERDYDDSYNDDAIBLANT.CO.UK



CYDNABYDDIAETH



Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gan Dîm Cyfranogiad Gweithgar Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd a Theuluoedd yn Gyntaf Caerdydd gyda chyfraniadau gan Young Devon, y Ddraig Ffynici a Chyngor Ieuenctid Prydain.

Datblygwyd fel rhan o daith Caerdydd at gael ei chydabod yn Ddinas sy'n Dda i Blant Unicef



CYFLWYNIAD

1.1 CYFLWYNIAD I BORTH ISAY

Pecyn cymorth cyfranogi yw Porth iSay sydd i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Porth iSay yn cynnig cyfres o brofiadau fesul cam, sy'n adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ddarparwyr i gynnwys teuluoedd yn y gwasanaethau a gânt. Datblygwyd porth iSay o ddogfennau ac adnoddau llwyddiannus sydd eisoes ar gael. Nid dogfen newydd mohoni eithr cyfuniad ohonynt i greu pecyn cymorth strwythuredig i ymarferwyr. Rhaid i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gael sail gref i weithio arni, ac felly rydym yn awgrymu'n gryf i bawb gwblhau'r adran 'Sut i Gymryd Rhan' cyn symud ymlaen. Gallai'r hyfforddiant hwn fod yn ddigon i rai pobl, gan mai cyfrifoldeb yr ymarferwr a'r teulu yw trafod y ffordd briodol ymlaen.

Defnyddir y term 'teulu' yn y pecyn cymorth hwn i gyfeirio at blant (0-10 oed), pobl ifanc (11-25 oed) a rhieni / gwarcheidwaid / gofawyr.

Mae'r term 'cyfranogi', fel y'i defnyddir yn y pecyn

cymorth hwn, yn cyfeirio at deuluoedd yn lleisio'u barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Defnyddir y term 'dysgwr' yn y pecyn cymorth hwn i gyfeirio at aelod o'r teulu sy'n dysgu sgiliau newydd wrth gymryd rhan mewn gweithdy hwyl a rhyngweithiol, a allai fod wedi'i achredu.

Yn y Porth iSay mae pum prif adran:

1. Cyfranogi Ymarferol
2. Ymchwilwyr
3. Llundio Gwasanaethau
4. Sicrwydd Ansawdd
5. Datblygu Sgiliau
6. Darllen Pellach ac Adnoddau

PWY SYDD WEDI DATBLYGU'R PECYN CYMORTH HWN?

Mae Tîm Teuluoedd yn Gyntaf Caerdydd wedi comisiynu Tîm Cyfranogiad Gweithredol (AIT) y Gwasanaeth Ieuencid a Rhwydwaith Rhieni Caerdydd i lunio'r pecyn cymorth hwn.

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Teuluoedd yn Gyntaf i ddatblygu systemau amlasiantaeth effeithiol a chymorth i deuluoedd, yn benodol y rhai sy'n byw mewn tldi. Ariennir y rhaglen gan grant £29m gan Lywodraeth Cymru i Gaerdydd, felly bydd modd cynnig y rhaglen tan 2017. Y nod yw cydnabod anghenion penodol teuluoedd gwahanol a'r gofyniad cyffredin i amryw asiantaethau gynnig pecynnau cymorth holistig ac integredig.

Y weledigaeth i Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghaerdydd yw gweithio gyda theuluoedd a pheidio â gwneud pethau iddynt nac ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu y dylai cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan hanfodol o bob gwasanaeth. Oherwydd hyn, mae angen i nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth ymgysylltu â'r rhaglen o ran dylunio, gwerthuso a llywodraethu'r gwasanaeth.

DYSGU SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Mae'r rhaglenni hyfforddiant a nodir yn y pecyn cymorth hwn yn gymysgedd o drafodaethau ac arsylwadau, gyda rhywfaint o waith ysgrifenedig. Mae ffocws cryf ar weithgareddau trafod. Gall y gweithiwr gasglu tystiolaeth i unigolion drwy arsylwadau, drwy drafodaethau neu drwy waith ysgrifenedig a wneir yn ystod y gweithgareddau.

Dylai'r dysgwr gadw llyfr lloffion neu ffolder tystiolaeth o'r gwaith y mae wedi'i gwblhau yn ystod y rhaglen hyfforddiant. Byddai'n cynnwys siart troi, ffotograffau, canfyddiadau asesiadau a gwybodaeth am ymgynghori.

Achredwyd nifer o raglenni hyfforddiant yn y gorffennol, ac mae modd trafod yr opsiwn hwn ymhellach drwy gysylltu â Thîm Canolog Teuluoedd yn Gyntaf Caerdydd.

CYFLWYNIAD

1.2 CYD-DESTUN BYD-EANG A CHENEDLAETHOL

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN (CCUHP)

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU yr hawliau a nodir yn y confensiwn.

Hyd yma, mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau bod gan bob plentyn ei hawliau. Mae Erthyglau 1-42 yn nodi sut y dylai pob plentyn gael ei drin.

Gweler yr adran Darllen Pellach yng nghefn y pecyn cymorth am y rhestr lawn o Erthyglau Hawliau yn CCUHP.

Gall y erthyglau hyn ei rhannu i fewn i is-gategoriâu wahanol:

Lle y bo'n gyffredin trafod hawliau o ran categorïau o'r fath, mae hefyd yn bwysig cofio bod yr holl hawliau yn rhyngddibynnol a'u bod yn gosod rhwymedigaethau ar y gwladwriaethau sydd wedi cytuno ar y cytundeb.

Gellir rhannu'r Confensiwn yn dair rhan, sef Darpariaeth, Diogelwch a Chyfranogiad.

- Hawliau i Ddarpariaeth: y rhain yw'r hawliau i adnoddau, sgiliau a gwasanaethau; y "mewnbynnau" y mae eu hangen i sicrhau goroesiad a datblygiad llawn plant (e.e. gofal iechyd yn Erthygl 24).
- Hawliau i Ddiogelwch: y rhain yw'r hawliau i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag camfanteisio neu gamdriniaeth. Yn bennaf, gwneir hyn gan oedolion neu sefydliadau sy'n bygwth eu hurddas, eu goroesiad a'u datblygiad (e.e. diogelwch a gofal er budd y plentyn yn Erthygl 3).
- Hawliau i Gyfranogi: y rhain yw'r hawliau sy'n rhoi modd i blant ymgysylltu â phrosesau newid. Bydd hyn yn rhoi hawliau iddynt ac yn eu paratoi i wneud cyfraniad gweithredol at gymdeithas (e.e. yr hawl i fynegi barn a chlywed camau cyfreithiol yn Erthygl 12).

Nod Porth iSay yw sefydlu ac ategu ymhellach bwysigrwydd yr agenda hawliau o fewn gwasanaethau yng Nghaerdydd, yn arbennig yr hawl i gyfranogi.

YMRWYMIAD LLYWODRAETH CYMRU I CCUHP

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2004, ac wrth wneud hynny ymrwymodd i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru hawliau.

Pasiwyd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)' yn 2011 gan Lywodraeth Cymru a daeth yn gyfraith ar 16 Mai 2011.

Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth ddyledus i hawliau a goblygiadau yn CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae rhagor o wybodaeth a hyfforddiant proffesiynol ar gael yn:

<http://www.childrensrightswales.org.uk/professionals.aspx>

YMRWYMIAD LLYWODRAETH CYMRU I GYFRANOGI

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn nifer o ddogfennau polisi allweddol (gweler yr Adran Darllen Pellach).

Mae hefyd nifer o strwythurau ar waith yng Nghymru sy'n cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Yn eu plith mae Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru (y Ddraig Ffynici), Fforymau Ieuenctid Sirol a Chynghorau Ysgol.

Proses, nid digwyddiad, yw cyfranogi, i lefelau gwahanol. Mae'n amrywio o gael ymgynghoriad ar fater y penderfynwyd arno ymlaen llaw i bobl ifanc a'u teuluoedd yn dewis agenda, gan wneud eu penderfyniadau eu hunain a'u datblygu. Mae casgliad diddorol o 30 o fodelau a dulliau gweithredu o ran cyfranogiad ieuenctid gan ganolfan adnoddau Cyngor Ieuenctid Prydain. Maent yn cynnwys Ysgol Cyfranogiad Plant Rogert Hart a model Graddau Cyfranogiad Phil Treseder. Mae'n ddefnyddiol ystyried i ba raddau y dylid cyfranogi, a'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o wneud hynny mewn lleoliadau a sefyllfaoedd gwahanol.

Yn 2004, cynhaliodd Project Cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru gystadleuaeth i lunio diffiniad cenedlaethol o gyfranogiad, a fyddai'n hawdd i oedolion a phobl ifanc ei ddeall. Y diffiniad buddugol oedd:

Ystyr cyfranogi yw bod gennyf hawl i fod yn rhan o benderfyniadau, gwaith cynllunio a gwaith adolygu camau gweithredu a allai effeithio arnaf. Cael llais a dewis

CYFLWYNIAD

1.3 SICRHAU ANSAWDD - PLANT A PHOBL IFANC

Y SAFONAU CYFRANOGI CENEDLAETHOL

Cafodd y safonau hyn eu llunio'n genedlaethol a'u lansio yn 2007.

Mae 7 Safon Genedlaethol i Blant a Phobl Ifanc y dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc geisio eu cyrraedd fel bod plant a phobl ifanc yn cael profiad da o gyfranogi. Mae'r safonau hyn yn hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau, ac adolygu unrhyw gamau a fydd yn effeithio arnyn nhw – 'Cael Llais, Cael Dewis'. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn defnyddio'r Safonau hyn yn ei waith ac yn helpu sefydliadau eraill i'w defnyddio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Y 7 Safon yw:

1. Gwybodaeth – sy'n hawdd i blant a phobl ifanc ei deall.
2. Eich Dewis Chi – digon o wybodaeth ac amser i wneud dewis gwybodus.
3. Dim Gwahaniaethu – mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr un cyfle i gyfranogi.
4. Parch – caiff barn ei pharchu.
5. Elwa o'r profiad – bydd cyfranogi'n hwyl ac yn gadarnhaol.
6. Adborth- Dod i wybod pa wahaniaeth y mae'ch barn wedi'i wneud.
7. Gwella'r ffordd rydym yn gweithio – Bydd oedolion yn gofyn i chi sut y gallant wella'r ffordd maent yn gweithio yn y dyfodol.



© Unicer/Dawe

CYFLWYNIAD

1.4 CYD-DESTUN LLEOL

Y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd yw'r arbenigwyr wrth ddeall eu hanghenion eu hunain a'u bywydau. Dyma'r rheswm pam fod Caerdydd wedi gwneud ymrwymiad craidd i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cyfrannu at lunio, cyflawni a gwella eu gwasanaethau. Mae'r ymrwymiad hwn yn Strategaeth Beth sy'n Bwysig, a fe'i hategir gan y 7 Nod Craidd i blant a phobl ifanc, fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru, sy'n crynhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

I sicrhau bod yr holl wasanaethau'n gweithredu er budd defnyddwyr, mae Caerdydd yn cydlynu cyfres o gyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Dyma rai enghreifftiau o'r ddinas.

AROLWG YSGOLION

Fe'i cynhelir ym mhob ysgol uwchradd yn y ddinas. Mae'n ein helpu i wrando ar yr hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc o ran eu hiechyd, diogelwch, cymdogaethau, addysg a rhagolygon cyflogaeth, diddordebau diwylliannol a hamdden, ynghyd ag amrywiaeth enfawr o bynciau eraill. Mae'r wybodaeth a'r data a gaiff eu casglu o'r Arolwg Ysgolion yna'n cael eu defnyddio i helpu gwasanaethau i weithio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc.

CYNGHORAU YSGOL

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod yn rhaid i bob ysgol yng Nghymru gael cyngor ysgol. Maent wedi'u ffurfio o ddisgyblion sy'n gyfrifol am gynrychioli llais pobl ifanc wrth lywio bywyd yr ysgol a dylanwadu arno.

CYNGOR IEUENCTID CAERDYDD

Fe'i cefnogir gan Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor ac mae'n cynrychioli barn plant a phobl ifanc yn nifer o'r penderfyniadau gwleidyddol ledled yr awdurdod. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys pobl ifanc 11-25 oed ledled y ddinas.

SYMPOSIWM PLANT A PHOBL IFANC

Mae'n ddigwyddiad blynyddol sy'n dwyn plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ynghyd i benderfynu ar flaenoriaethau blynyddol o ran gwaith a datblygu cynlluniau gweithredu.

GWAITH RHEOLI CYMDOGAETHAU

Mae Rheoli Cymdogaethau yn cynnig ffordd strwythuredig o ddod â phobl, darparwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn nes at ei gilydd i ddatblygu atebion pwrpasol i'r gymuned leol.

THE SPROUT

Mae TheSprout.co.uk (<http://www.thesprout.co.uk/>) yn wefan newyddion, gwybodaeth a chynghor i bobl ifanc yng Nghaerdydd. Pobl ifanc neu sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghaerdydd sy'n ysgrifennu'r erthyglau. Ariennir y gwasanaeth gan Teuluoedd yn Gyntaf.

Beth y gallwch ei wneud gyda TheSprout?
TheSprout.co.uk – 029 2046 2222

DEWIS CYMRU

Dewis Cymru yw'r lle i fynd ato os oes angen gwybodaeth neu gyngor arnoch am eich lles - neu os ydych chi eisiau gwybod sut y gallwch helpu rhywun arall.

Mae'n cynnig gwybodaeth a all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ac mae gennym hefyd wybodaeth am bobl a gwasanaethau yn eich ardal a all fod o gymorth i chi gyda'r pethau sy'n bwysig i chi.

www.dewis.wales

1.5 MANTEISION

MANTEISION I BLANT, POBL IFANC A THEULUEDD

Mae cyfranogi yn rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddatblygu yn bersonol, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Gall cyfranogi gynnig profiad ymarferol a chyfleoedd i ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifoldeb. Mae cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yn cynnig nifer o fanteision i ddefnyddwyr unigol:

- Gwelliannau uniongyrchol yn eu bywydau a'u cyfleoedd bywyd eu hunain e.e. gwasanaethau gwell.
- Y posibilid o ddiogelu eu hunain a herio camddefnydd o hawliau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy roi gwybod i oedolyn cyfrifol.
- Mwy o hunanhyder a hunan-barch.
- Cyfle i gaffael ac ehangu eu sgiliau, gan gynnwys datrys problemau, negodi a sgiliau cyfathrebu.
- Dod yn gyfarwydd â phrosesau grŵp a democrataidd, gan gynnwys deall barn wahanol, yr angen i gyfaddawdu ac ymdeimlad o gyfrifoldebau am benderfyniadau grŵp.
- Ymdeimlad o bwrpas a chymhwysedd yn eu bywydau eu hunain – cred y gallant gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau eu hunain a bywydau eu cyfoedion, eu teulu a'u cymuned.
- Cyfle i ddysgu ac ymarfer sgiliau dinasyddiaeth gyfrifol a gweithredol.

MANTEISION I SEFYDLIADAU

Mae manteision i'r sefydliad yn deillio o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth, o ran:

- Perthnasau gwell.
- Sefydliad yn fwy perthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Gwella gallu sefydliadol i gyflawni canlyniadau.
- Cynorthwyo sefydliadau i dargedu arian yn effeithiol.
- Gwella hygredd ac enw da sefydliadol.
- Yn cynnig amrywiaeth ehangach o safbwyntiau i sefydliadau.
- Gwella systemau sefydliadol.
- Helpu i feithrin gallu a chynaliadwydd mewn sefydliad.

MANTEISION I'R GYMUNED

Mae cyfranogi yn ymrymuso unigolion mewn teuluoedd fel aelodau o gymdeithas sifil a dinasyddion actif. Mae cyfranogi'n atgyfnerthu gallu teuluoedd i ddwyn sefydliadau a llywodraethau i gyfrif. Mae'n galluogi plant i fod yn rhan o gymdeithas sifil ac i wneud yn iawn am gael eu heithrio o brosesau gwleidyddol ffurfiol. Mae'n cynyddu gwelededd aelodau o'r teulu a'u problemau, gan sicrhau eu bod yn cael mwy o ddylanwad mewn agendâu economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Mae cynyddu atebolrwydd i deuluoedd yn cynyddu'r gofod democrataidd ac mae'n annog llywodraethu da.

CYFLWYNIAD

1.6 DATBLYGU STRATEGAETH

Mae'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol a'r Siarter ar gyfer Cyfranogiad Rhieni Caerdydd yn adnoddau sy'n eich helpu i fesur a gwerthuso'r broses o gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn y gwaith a wnewch.

First, you need to make the case for increasing the participation of children, young people and their families in decision-making in your organisation. You can do this by:

- building an evidence base
- drafting a strategy

Mae dwy brif ffordd o gyflwyno'r achos. Yn gyntaf, gallwn wneud achos drwy ddefnyddio'r fframwaith cyfreithiol rhyngwladol ar hawliau dynol, CCUHP, ac Erthygl 12 ar gyfer plant a phobl ifanc. 'Dull seiliedig ar hawliau' o ymdrin â chyfranogi yw hwn.

Yn ail, gallwn wneud yr achos drwy ddisgrifio buddion posibl i blant, pobl ifanc, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau unigol.

PAM YSGRIFENNU STRATEGAETH?

I gyflawni newid ymddygiad mewn sefydliad, mae'n bwysig cael syniad clir o ba newid sydd ei angen, ac i gael cefnogaeth y rhai sydd â'r grym i wneud penderfyniadau. Mae llunio strategaeth, cytuno arni a'i gweithredu yn ffordd dda o wneud hyn.

Mewn strategaeth, gallwch grynhoi'r dystiolaeth y mae'n seiliedig arni e.e. nodi'r ffynonellau ymchwil a thystiolaeth arall i ddangos mai'r cynllun a gynigir yw'r mwyaf effeithiol. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau hunanasesu (y cewch ragor o wybodaeth amdanynt yn nes ymlaen yn y pecyn cymorth hwn) i'ch helpu i gasglu'r dystiolaeth hon.

Mae angen y dystiolaeth hon i chi ennyn cefnogaeth i'r strategaeth gan bawb ('rhanddeiliaid') y mae angen iddynt gytuno arni (e.e. rheolwyr a fydd yn ei chymeradwyo'n ffurfiol) a'r rhai a fydd yn ei rhoi ar waith (e.e. rheolwyr, ymarferwyr rheng flaen a staff eraill). Gall strategaeth hefyd egluro cysyniadau, a defnyddio modelau a all helpu i ddatblygu a gwella arfer lleol.

PWY DDYLAI GAEL EI GYNNWYS?

Mae angen cynnwys ac ymgynghori â holl unigolion allweddol y sefydliad, ond ar adegau gwahanol ac i raddau gwahanol, yn dibynnu ar eu rôl. Bydd hyn hefyd yn helpu o ran gwerthuso'r broses gan ddefnyddio'r adnoddau hunanasesu. Os yw pawb yn cytuno o'r dechrau, bydd yn haws casglu dystiolaeth yn y tymor hwy.

Er enghraifft, gallai fod angen cynnwys uwch reolwyr am gyfnod wrth bennu cyfeiriad, ac yna roi gwybod iddynt am gynnydd, a chymeradwyo'r fersiwn ddrafft. Efallai y bydd angen i ddeiliaid gael eu cynnwys i sicrhau eu cefnogaeth wrth newid diwylliant cyfranogi.

Dylai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn rhan o'r broses o gam cynnar e.e. drwy roi adborth ar amlinellad o'r weledigaeth a'r cyfeiriad. Mae modd rhannu Strategaeth Cyfranogi â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill i helpu i egluro beth rydych chi'n ei wneud i wella cyfranogiad.

CYFLWYNIAD

1.7 FFYRDD O WEITHIO

Ar yr un pryd â nodi beth rydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau cyfranogiad ystyrion plant a phobl ifanc yn eich sefydliad, mae hefyd yn bwysig meddwl am sut rydych chi'n mynd i'w wneud ac i feddwl am ffyrdd eich sefydliad o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Wrth weithio gydag unrhyw deuluoedd mae'n bwysig ystyried y mater allweddol o ddiogelu yn llawn.

Mae'r term diogelu wedi cael ei ddefnyddio dros y blynyddoedd diwethaf mewn ystod eang o leoliadau. Yng nghyd-destun amddiffyn plant, fe'i diffinnir fel:

"Gwneud popeth sy'n bosibl i leihau'r risg o niwed i blant a phobl ifanc."

Diogelu Plant a Phobl Ifanc Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ffactor allweddol wrth ddiogelu plant. Os gall plant gael llais ac os gallwn glywed yr hyn y maent yn ei ddweud, gellir eu diogelu'n well.

Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cadarnhau hawl y plentyn i gael dweud ei ddweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd. Mae Erthygl 19 yn cadarnhau eu hawl i gael eu hamddiffyn ac yn golygu:

"Dylai Llywodraethau sicrhau bod gofal priodol ar gyfer plant, a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth

ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un sy'n gofalu amdanynt."

Mae gan bob sefydliad sy'n dod i gysylltiad â phlant 'ddyletswydd gofal' tuag atynt. Amlinellir rolau asiantaethau a sefydliadau gwirfoddol a'u cyfrifoldebau am gydweithio a diogelu a hyrwyddo lles plant yn y canllawiau Diogelu Plant - Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (Adran 28).

Mae diogelu yn faes gwaith heriol lle mae'n allweddol cynnwys plant a phobl ifanc yn y prosesau sy'n effeithio arnynt. Gall sefydliadau ddefnyddio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel proses i'w helpu i rymuso plant a phobl ifanc i siarad a chryfhau gallu unigolion a sefydliadau i wrando ac felly i'w diogelu. Mae themâu cyffredin yn cael eu rhannu rhwng yr egwyddorion a nodir yn y canllawiau 'Diogelu Plant - gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004' (Adran 28) a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Er enghraifft, dyma rai o'r egwyddorion craidd ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac a gwmpeisir yn y safonau cyfranogiad:

- Gwrando ar blant,
- Cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau,
- Rhannu gwybodaeth,
- Darparu cymorth a chynghor,
- Mynd i'r afael â materion amrywiaeth,
- Sicrhau bod plant yn gwybod eu hawliau.

Os nad yw gweithwyr proffesiynol yn gofyn i blant am eu barn ar gadw'n ddiogel yna sut y byddant yn gwybod a yw eu harferion diogelu yn gweithio? Mae trychinebau wedi atgyfnerthu'r neges bod angen i ni fod yn treulio amser yn gwrandao ar blant a phobl ifanc er mwyn atal cam-drin (AGGCC 2009). Er mwyn datblygu a chynnal diwylliant diogel a gwrandao, mae angen i ni ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys yn y trafodaethau.

Yna bydd hyn yn rhoi syniad da i bobl broffesiynol a ydym yn datblygu ac yn cynnal strwythurau sy'n cwmparu diogelu.

Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith y gall plant a phobl ifanc o bob cymuned gael eu brifo, eu rhoi mewn perygl, neu eu cam-drin beth bynnag fo'u hoed, diwylliant, dosbarth, anabledd, rhyw, cred grefyddol neu gyfeiriadedd rhywiol. Gall cam-drin plant amrywio o fwlio grŵp cyfoedion i gam-drin corfforol, rhywiol ac emosïynol difrifol sy'n mynd y tu hwnt i gyd-destun y teulu. Gall plant wynebu camdriniaeth p'un ai gartref, yn yr ysgol neu pan fyddant yn derbyn gofal. Mae'r amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau yn ei gwneud yn anodd cynllunio dull 'un maint i bawb' o ddiogelu.

CYFLWYNIAD

1.7 FFYRDD O WEITHIO (PARHAD)

Cynnwys plant a phobl ifanc yn eich gwaith. Gall y Safonau eich helpu i feddwl sut y gallwch chi fel oedolion wella eich cymorth i blant a phobl ifanc mewn prosesau penderfynu, ond mae potensial hefyd i blant a phobl ifanc gynorthwyo ei gilydd i gymryd rhan. Isod ceir rhai enghreifftiau y mae plant a phobl ifanc wedi eu rhoi i ni am sut y gallwch rymuso plant a phobl ifanc eu hunain i wella ansawdd cyfranogiad ar gyfer plant a phobl ifanc eraill.

- Plant a phobl ifanc yn arwain ymgynghoriadau ac yn rhannu gwybodaeth gyda phlant a phobl ifanc eraill.
- Pobl ifanc yn diweddarau gwefannau gwybodaeth.* (Nododd pobl ifanc fodd bynnag nad yw gwefannau bob amser yn hygyrch i bob person ifanc, yn enwedig y rhai sydd eisoes ar y cyrion e.e. pobl ifanc mewn llety sy'n derbyn gofal).
- Plant a phobl ifanc i weithio ar wneud hysbysebion a phecynnau adnoddau i roi gwybod i blant a phobl ifanc eraill am eu dewisiadau.
- Plant a phobl ifanc yn gofyn i blant a phobl ifanc eraill a ydynt am gymryd rhan.
- Plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn cynllunio a chyflwyno digwyddiadau.
- Adborth dan arweiniad plant a phobl ifanc ar brofiad plant a phobl ifanc eraill o barch o fewn y prosiect.
- Defnyddio holiaduron a ddyluniwyd gan blant a phobl ifanc i ofyn am farn a blaenoriaethau plant a phobl ifanc eraill.
- Plant a phobl ifanc yn nodi'r ffyrdd gorau o gyfathrebu â nhw.
- Plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â phenderfynu ble y dylent gyfarfod, pa weithgareddau y dylid eu cynnal a beth sy'n gydnabyddiaeth/gwobr briodol ar gyfer eu cynnwys.
- Plant a phobl ifanc yn monitro ymatebion plant a phobl ifanc eraill am weithgareddau y maent wedi cymryd rhan ynddynt.
- Gwerthusiadau dechrau/diwedd a gynllunnir ac a arweinir gan blant a phobl ifanc.
- Plant a phobl ifanc yn bwydo i mewn i nodau ac amcanion e.e. cynllunio ar y cyd gyda grŵp llywio/cynghori plant a phobl ifanc.
- Plant a phobl ifanc yn cynnal gwerthusiadau dan arweiniad cyfoedion gyda grwpiau/sefydliadau eraill e.e. archwilwyr pobl ifanc.